**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref RE/235/20

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

22 Mehefin 2020

Annwyl Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi rhagor o wybodaeth ichi am rai materion a godwyd yn ystod ein sesiwn graffu diweddar ar y gyllideb atodol gyntaf.

Cyllid COVID-19 ychwanegol i Fyrddau Iechyd

Dyrannwyd £573m i'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y gyllideb hon i gefnogi'r ymateb i COVID-19. Mae hyn yn cynnwys dros £113m yr oedd y Gweinidog Iechyd yn gallu ei aigyfeirio o fewn ei MEG i'w ddefnyddio ar gyfer yr ymateb uniongyrchol i COVID-19.

Bydd dros £490m yn cael ei gyfeirio tuag at gefnogi Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd. Mae'r dyraniadau yn cynnwys cyllid ar gyfer cyfarpar diogelu personol, ysbytai maes, staff ychwanegol, profion ac offer a nwyddau traul meddygol ychwanegol.

Yn ystod cyfnod cynnar y pandemig hwn, llwyddom i sicrhau bod cyllid yn cael ei gymeradwyo'n gyflym a bod cymorth ariannol ar gael i'r GIG ar yr adeg gywir. Mae cyrff y GIG yn awr yn cyflwyno gwybodaeth fonitro yn fisol sy'n dangos effaith ariannol COVID-19 yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn, a'r rhagolygon ar gyfer gweddill 20-21. Mae swyddogion yn gweithio drwy'r wybodaeth hon a disgwylir y bydd dyraniadau'r chwarter cyntaf yn cael eu cadarnhau cyn diwedd Mehefin.

Y Strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu

Diben y dyraniad o £57m ar gyfer Profi oedd cefnogi gofynion cychwynnol Strategaeth Brofi Cymru Gyfan a gyhoeddwyd ar ddiwedd mis Mawrth. Bydd y rhan fwyaf o'r cyllid hwn yn mynd i Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi'r gwaith y maent wedi bod yn ei wneud i alluogi

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cymru i ddatblygu ei gallu yn raddol i brofi gweithwyr allweddol ac, yn fwy diweddar, unrhyw un sydd â symptomau o’r haint.

Mae’r ffocws yn awr ar y polisi Profi, Olrhain, Diogelu a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer Cymru. Rydym yn sicrhau y bydd modd rhoi hwn ar waith yn effeithiol yng Nghymru, ac yn gweithio gyda Llywodraeth y DU. Mae’r cyllid a roddwyd hyd yma yn ffurfio un elfen yn unig o’r strategaeth, ac mae gwaith yn parhau ar gwmpas llawn y cyllid sydd ei angen ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol hon, ac nid oedd yn bosibl ei gynnwys yn y gyllideb hon.

Byddaf yn rhoi diweddariad pellach ar ddatblygiadau'r rhaglen hon ac ar fonitro ei heffeithiolrwydd yn fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar y gyllideb atodol gyntaf.

Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog

Gallaf gadarnhau bod cynllun Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog ar gael eleni ac yn cael ei ariannu o’r MEG Tai a Llywodraeth Leol. Bydd penderfyniadau ar gyllid ar ôl 2020-21 yn cael eu gwneud fel rhan o’r gyllideb flynyddol ar gyfer 2021-22 yn y ffordd arferol.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd